

# Blwyddyn Ieithoedd Brodorol UNESCO 2019
# Adroddiad ac argymhellion gweithgarwch Cymru

gan Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

Gorffennaf 2020

wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru

## Cyflwyniad a chyd-destun

Yn 2016 dynododd Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig 2019 fel Blwyddyn Ryngwladol Ieithoedd Brodorol, wedi ei harwain gan UNESCO. Tuag at ddiwedd 2018 (ac i raddau helaethach yn awr) yng nghyd-destun Brexit a'r newidiadau byd-eang o'n cwmpas, roeddem yn awyddus i gymryd cyfleoedd i gryfhau ein rhwydweithiau a'n cyd-berthnasau rhyngwladol. Drwy'r celfyddydau a'r diwylliant o Gymru, roeddem yn ogystal yn awyddus i gyfrannu at ailddiffinio ein hunain yn y byd, ystyried y modd yr ydym yn ymgysylltu gyda'r byd, a'r modd y mae'r byd yn gweld Cymru.

Fel Celfyddydau Rhyngwladol Cymru rydym yn naturiol yn cefnogi ac yn buddsoddi yng ngwaith artistiaid Iaith Gymraeg ac fel rhan o'n strategaeth ryngwladol, roeddem yn awyddus i osod y dwyieithrwydd hwn, ein safle unigryw o fewn y DU, fel cryfder ac fel pwynt cyswllt gyda nifer o ddiwylliannau eraill dros y byd.

Roedd Blwyddyn Ryngwladol Ieithoedd Brodorol UNESCO yn darparu'r union gyfle hwn i osod ein trafodaeth mewn cyd-destun byd-eang ac i gefnogi cysylltiadau rhyngwladol drwy gyfrwng rhwydwaith ryngwladol arwyddocaol.




*Clawr blaen:* Fidget Feet, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Llanrwst, Awst 2019 (llun: Gwenergynta)
Dôm Cymru, CHQ Dulyn, Mawrth 2020 (llun: Aaron Daly)



Roedd blwyddyn UNESCO yn cynnig y cyfle i ni i weithio mewn partneriaeth gydag Is-adran y Gymraeg Llywodraeth Cymru ar y prosiect hwn. Amcanion Llywodraeth Cymru wrth ddod yn bartner allweddol ym mlwyddyn UNESCO oedd:

- Codi proffil Cymru yn rhyngwladol fel cenedl ddwyieithog, a chodi proffil Cymru, wedi Brexit, o fewn sefydliadau a rhwydweithiau rhyngwladol byd-eang.
- Dathlu hanes y Gymraeg a’r diwylliant sy’n gysylltiedig â hi yn rhyngwladol (gan gynnwys o fewn cenhedloedd eraill y DU), ac o fewn y cwricwlwm newydd.
- Atgyfnerthu safle Cymru fel cenedl sydd ar flaen y gad yng nghyd-destun adfywiad ieithyddol – a dysgu gan eraill.
- Yn y pen draw, drwy gyfrwng yr uchod, ac fel rhan o amcan strategaeth *Cymraeg 2050* o greu’r amodau ar gyfer sicrhau miliwn o siaradwyr: codi ymwybyddiaeth a chymell balchder yng Nghymru ynghylch safle’r Gymraeg yn y byd ymysg teulu o ieithoedd.

Digging Roots @ Womex 2019, Hydref 2019 (llun: Eric Van Nieuwland)

## Gweithgarwch






### 1 Lansiad Blwyddyn Ryngwladol Ieithoedd Brodorol, Ionawr 2019

Gweithdy rhanddeiliaid a gynhaliwyd yn Sain Ffagan i lansio'r flwyddyn o weithgarwch ac i gasglu ynghyd 24 o gynrychiolwyr o bob rhan o'r sector diwylliannol er mwyn trafod ffyrdd o gefnogi a chymryd rhan yn y gweithgarwch yn ystod y flwyddyn.

### 2 Dirprwyaethau i Iwerddon, Ionawr -Chwefror 2019

Trefnodd CRhC ddirprwyaeth i Ddulyn er mwyn mynychu cynhadledd byd-eang Culture Ireland (Llywodraeth Cymru; CRhC a'r Eisteddfod); ynghyd â dirprwyaeth celfyddydol bychan i Ddulyn ar gyfer digwyddiadau Dydd Gŵyl Dewi. Roedd hyn yn cynnwys cynhadledd a drefnwyd gan y Cyngor Prydeinig yn Iwerddon; a pherfformiadau gan Gwyneth Glyn, Twm Morys, Patrick Rimes, gyda'r cerddor Gwyddelig nodedig Lorcan yn ymuno â nhw.




Roedd dirprwyon yn y gynhadledd yn cynnwys Culture Ireland, Galway 2020; British Council in Ireland; Cyngor Dinas Galway; Llenyddiaeth Cymru; Amgueddfa Genedlaethol Cymru; Pontio; Yr Eisteddfod Genedlaethol a Theatr Mwldan.

*Top:* Amgueddfa Cymru, Sain Ffagan, Ionawr 2019
Gwyneth Glyn, Patrick Rimes, Derbyniad Dydd Gŵyl Dewi, Amgueddfa Genedlaethol Iwerddon, 2019 (llun: Paul Sherwood)

Arweiniodd yr ymweliadau at gywaith rhyngwladol cyntaf yr Eisteddfod Genedlaethol sef cyngerdd / cynhyrchiad gyda Fidget Feet o Iwerddon sydd wedi bod yn cydweithio gyda Pontio ym Mangor. Roedd yr ymweliadau hefyd yn gymorth wrth siapio Wythnos Cymru Dulyn ym mis Mawrth 2020.







## 3 Symposiwm Mamiaith, Ebrill 2019

Roedd hwn yn ddigwyddiad arbennig a gynhaliwyd yn y prynhawn i gydfynd â pherfformiad cyntaf Jeremy Dutcher yn y DU a berfformiodd yn Neuadd Ogwen, Bethesda. Dyma gantor ifanc sydd wedi ei ganmol yn fawr. Jeremy Dutcher oedd enillydd y Polaris Prize uchel ei fri yng Nghanada yn 2018 am ei albwm gyntaf Wolastoqiyik Lintuwakonawa, oedd yn deyrnged i'w wreiddiau First Nation.

*Clocwedd:* Mamiaith, Jeremy Ducher, Ifor ap Glyn, Lisa Jên, Gŵyl Ein Llais yn y Byd. Mamiaith, Lisa Jên, Gŵyl Ein Llais yn y Byd. Mamiaith, Gŵyl Ein Llais yn y Byd (lluniau: Llywodraeth Cymru)

Roedd y digwyddiad yn cynnwys:

- sgwrs rhwng Jeremy Dutcher ei hun; Ifor ap Glyn, bardd cenedlaethol Cymru; a Lisa Jên o 9Bach, yn canolbwyntio ar eu profiadau o ysgrifennu a pherfformio drwy gyfrwng iaith frodorol neu leiafrifol ar y llwyfan rhyngwladol.

- gweithdy i gerddorion, gyda gwybodaeth ymarferol gan Lisa Schwartz, Cyfarwyddwr Gŵyl Werin Philadelphia sydd newydd gael ei phenodi’n lywydd ar Folk Alliance International a Tom Besford o English Folk Expo.

- gweithdy ar gyfer partneriaid diwylliannol – lleoliadau, gwyliau a sefydliadau eraill – er mwyn archwilio ein stori ni am y Gymraeg a sut y gallwn gyfathrebu’r stori hon gyda’r byd yn ystod Blwyddyn Ryngwladol Ieithoedd Brodorol UNESCO a thu hwnt.



Fidget Feet, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Llanrwst, Awst 2019, (llun: Gwenergynta)

## 4 Dirprwyaeth Ryngwladol yr Eisteddfod Genedlaethol, Awst 2019

Bu CRhC yn cydweithio gyda'r Eisteddfod Genedlaethol i ddechrau deialog gyda ieithoedd brodorol eraill yn Llanrwst yn 2019 drwy groesawu dirprwyaeth o ddirprwyon Gwyddelig yn bennaf. Roedd y ffocws strategol ar Iwerddon yn cydredeg â Y Tylwyth, cynhyrchiad Yr Eisteddfod Genedlaethol mewn partneriaeth ryngwladol arbennig â Fidget Feet, grŵp Syrcas Cyfoes o Iwerddon. Roedd y ddirprwyaeth yn cynnwys Craig Flaherty (Galway 2020 European Capital of Culture - Iwerddon), Sharon O'Grady (Cyngor Sir Galway - Iwerddon), Denise Hanrahan (Conswl Cyffredinol Iwerddon yng Nghaerdydd), Danielle Lynch (Gŵyl St Patrick's, Dulyn - Iwerddon) Claudia Ferigo (Gŵyl Suns Europe - Yr Eidal) a Lisa Schwartz (Folk Alliance International/Gŵyl  Werin Philadelphia - UDA). Mynychodd y dirprwyon raglen amrywiol dros gyfnod o dridiau gan gynnwys:

- Trafodaeth Articulture yn trafod celf awyr agored a dyfodol celf awyr agored yng Nghymru gan ddefnyddio'r iaith Gymraeg
- Cyfarfodydd gyda nifer o randdeiliaid gan gynnwys Neal Thompson (Focus Wales), Elen ap Robert (Pontio), Dylan Huws (Cwmni Da), Iwan Davies (Prifysgol Bangor), Phil George (CCC), Sian Tomos (CCC), Danny Kilbride (trac), Ifor ap Glyn (Bardd Cenedlaethol Cymru) a Llenyddiaeth Cymru, Arwel Gruffydd (Theatr Genedlaethol
- Perfformiad o Y Tylwyth, cyd-gynhyrchiad rhyngwladol rhwng yr Eisteddfod Genedlaethol, Pontio Bangor a'r grŵp Syrcas Gwyddelig Cyfoes, Fidget Feet
- Seremoni'r coroni




Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Llanrwst

- Sgwrs banel yn trafod creu pont rhwng Cymru ac Iwerddon drwy gyfrwng diwylliant ac iaith gyda Eluned Morgan AM, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, Bethan Kilfoil, Golygydd Rhaglenni gyda RTE, a Gethin Scourfield o Triongl ac Other Voices Aberteifi, wedi'i gadeirio gan Eluned Hâf, Pennaeth Celfyddydau Rhyngwladol Cymru.

## 5 68 Llais, 68 Calon – Gŵyl Ara Deg – Medi 2019

Fel rhan o flwyddyn gyntaf Gŵyl Ara Deg, a drefnir gan Neuadd Ogwen a Gruff Rhys ym Methesda, cefnogodd CRhC arddangosfa o Gran Salon Mexico – detholiad o ddarluniadau o gyfres wedi'i animeiddio sy'n cael ei hadrodd yn y 68 o ieithoedd sy'n frodorol i Mecsico, sydd ar hyn o bryd o dan fygythiad.





## 6 Prosiect llysgenhadaeth Gruff Rhys – PANG! – Medi 2019

Gofynnodd CRhC i Gruff Rhys fod yn "llysgennad" diwylliannol ar gyfer blwyddyn UNESCO yng Nghymru ac y byddem yn cefnogi prosiect artistig y gallem ei ddefnyddio i gefnogi amcanion ein rhaglen. Dangoswyd y ffilm a oedd yn cydfynd gyda rhyddhau PANG! ym mis Medi yn Siapan am y tro cyntaf, fel rhan o weithgarwch hyrwyddo dôm Cymru, ac fe'i dangoswyd i gynulleidfaoedd yn Siapan adeg Cwpan Rygbi'r Byd. Denodd y ffilm uwch-gynrychiolwyr o ddiwydiant Cerddoriaeth Siapan gan gynnwys Sony Music a Fuji Rock.

*Ar y chwith:* Prosiect 68 Llais, 68 Calon, rhan o arddangosfa Gran Salòn México yng Ngŵyl Ara Deg.
*Ar y dde:* Estelí Meza, 'The origin of the Tule tree / The King Kong Oy', prosiect 68 Llais, 68 Calon, rhan o arddangosfa Gran Salòn México yng Ngŵyl Ara Deg, Medi 2019 (lluniau: Neuadd Ogwen)




PANG! Gruff Rhys
*O'r top:* Dôm Cymru, Tokyo, Medi 2019 (llun: Celfyddydau Rhyngwladol Cymru)
Poster hyrwyddo gan Mark James. Dôm Cymru, Tokyo, Medi 2019 (llun: Griff Lynch Jones)



Dangosodd Cian Ciarán, aelod arall o Super Furry Animals, animeiddiad newydd (Bait Studios) o'i gyfansoddiad am stori Rhys a Meinir a recordiwyd gan Gerddorfa Cenedlaethol Cymreig y BBC.



*Top:* Cian Ciaran 'Rhys a Meinir' Cymru yn Japan 2019, Dôm Cymru, Tokyo, Hydref 2019 (llun: Bait Studio)
BreakOutWest, Seremoni Agoriadol, Medi 2019 (llun: Sophie Davies)

## 7 Digwyddiad First Nations BreakOut West – Medi 2019

Fel rhan o ddigwyddiad arddangos Focus Wales yng Ngŵyl BreakOut West Canada, cefnogodd CRhC Worldcub i ymweld â, a chwrdd â cherddorion ac unigolion blaenllaw yn y Gymuned First Nation Carcross/ Tagish yn Yukon wrth i bobl ddod ynghyd yn arbennig i ddathlu iaith a cherddoriaeth.

Mae'r bartneriaeth rhwng Cymru a Chanada'n parhau ac mae Focus Wales yn paratoi cyfres o ddigwyddiadau rhithiol gyda BreakOut West ym mis Medi a gyda M for Montreal ym mis Tachwedd.






## 8 'Mamiaith' – Llenyddiaeth Cymru, Ebrill – Hydref 2019

Dyfarnodd CRhC grant strategol i Lenyddiaeth Cymru, er mwyn ariannu cyfnod o ymchwil a datblygu ar gyfer sioe farddoniaeth arloesol - sioe amlgyfrwng, amlieithog, fyw. Mae'r prosiect hwn yn gywaith rhyngwladol gyda phartneriaid yn Yr Alban, Iwerddon a Gogledd Iwerddon. Yr artistiaid sy'n rhan o'r prosiect yw Ifor ap Glyn o Gymru, Ciara ní É o Iwerddon a Peter Mackay o'r Alban. Mae'r pwyslais hyd yn hyn wedi bod ar ddatblygu rhwydweithiau ar hyd y gwledydd Celtaidd a chaffael y beirdd cyfranogol i fynd â'r prosiect yn ei blaen, ac mae Llenyddiaeth Cymru yn awr yn y broses o gaffael cyllid gan bartneriaid yn Yr Alban, Gogledd Iwerddon, Iwerddon a Chymru er mwyn cynhyrchu a theithio'r sioe. Bu dau o'r artistiaid yn perfformio yn Nôm Digidol Tŷ Cymru fel rhan o Wythnos Cymru Dulyn ym mis Mawrth 2020.

Ciara Ní É, Wythnos Cymru Dulyn 2020, Dôm Cymru (llun: Bethan Wyn)
Muttersprache, Wal Berlin (llun: Lleucu Siencyn / Llenyddiaeth Cymru)

## 9 CRhC yn arwain Dirprwyaeth i gynhadledd WOMEX a'r rhwydwaith Cerddoriaeth Ieithoedd Brodorol yn cwrdd, Hydref 2019

Gwahoddwyd Eluned Hâf i siarad mewn sgwrs banel am iaith yn y gynhadledd WOMEX ac fe wnaeth CRhC gyfranogi hefyd wrth i'r rhwydwaith Cerddoriaeth Ieithoedd Brodorol gwrdd yn y gynhadledd. Cefnogodd CRhC nifer o sefydliadau o Gymru i gyfranogi o'r gynhadledd hefyd, a gafodd ei gyd-gadeirio gan un o feirniaid WOMEX 19 ac arweinydd Celfyddydau y Mauri Hinurewa Te Hau, a Danny Kilbride o Trac.





Disgrifiodd Eluned Hâf y profiad o gymryd rhan yn y gynhadledd fel un a newidiodd ei bywyd ac ysgrifennodd hi flog ar gyfer gwefan Cyngor Celfyddydau Cymru a gafodd ei ryddhau ar noswyl cynhadledd "Ein Llais yn y Byd":

"Bûm yn ddigon lwcus i gymryd rhan yng nghynhadledd gyntaf cerddoriaeth frodorol WOMEX, gŵyl arddangos ryngwladol Cerddoriaeth Byd flynyddol, a oedd yn y Ffindir yn ddiweddar. Cefais fy nghyfareddu gan y gerddoriaeth, a'r trafodaethau ynglŷn â hawliau a choloneiddio cerddorol, cynaladwyedd diwylliannol, a rhagor. Fe'm sobreiddiwyd gan ein diffyg ymwybyddiaeth o sefyllfa hawliau merched yn arbennig yn y cymunedau brodorol a sut, hyd heddiw, y targedir merched brodorol, a mamau yn arbennig, wrth i goloneiddio diwylliannol ddwysáu. Ganddyn nhw wedi'r cwbwl y cawn ni oll ein mamiaith."

WOMEX 2019, Panel, Hydref 2019 (llun: Eric van Nieuwland)






## 10 Cydweithrediad Cerddoriaeth a Ieithoedd Brodorol MAMIAITH – Tachwedd 2019

Yn dilyn galwad agored, arweiniodd CRhC Gydweithrediad Cerddorol Ieithoedd Brodorol cyntaf MAMIAITH, oedd yn canolbwyntio ar greu cerddoriaeth mewn ieithoedd brodorol. Dros ddeg diwrnod, bu cerddorion sy'n gweithio'n eu mamieithoedd yn rhyngwladol o Gymru, Iwerddon a'r Alban yn archwilio materion yn ymwneud ag iaith, diwylliant a hunaniaeth frodorol a sut y mae cerddoriaeth yn trosglwyddo iaith ond hefyd yn trosgynnu ffiniau ieithyddol ledled y byd.

Y cerddorion a ddewiswyd ar gyfer cydweithrediad MAMIAITH oedd: Georgia Ruth a Jordan Price Williams (Cymru), Doiminic Mac Griolla Bhride a Lauren Nī Chasaide (Iwerddon) a Rona Wilkie (Yr Alban). Bu'r sgwennwr, cerddor a'r cyfansoddwr Lisa Jên o 9Bach yn cefnogi ac yn mentora'r cerddorion yn ystod eu harhosiad yng nghanolbarth Cymru. Ei chydweithrediad gwreiddiol, Mamiaith, gyda'r casgleb brodorol o Awstralia, Black Arm Band, ysbrydolodd raglen UNESCO yng Nghymru.

Buont yn perfformio ac yn rhannu eu sgyrsiau a'u mewnwelediad yng ngŵyl Ein Llais yn y byd | Our Voice in the World Llywodraeth Cymru yn Aberystwyth ym mis Tachwedd 2019, cynhadledd y bu CRhC hefyd yn cyfranogi ohono drwy gynnig argymhellion ar gyfer artistiaid a siaradwyr.

*Ar y chwith:* Poster hyrwyddo Mamiaith (*o'r chwith i'r dde:* Doiminic Mac Griolla Bhríde, Lauren Nī Chasaide, Rona Wilkie, Georgia Ruth, Jordan Price Williams)
*Ar y dde:* Mamiaith, Preswyliaeth Cerddoriaeth, CAERSWS, Hydref 2019, (llun: Angharad Wynne)

## 11 Lisa Jên – Prosiect llysgennad; ac Óró – Prosiect Galway European Capital of Culture – parhaus



Mae CRhC wedi gwahodd Lisa Jên i fod yn "llysgennad" blwyddyn UNESCO yng Nghymru. Mae wedi cyfansoddi cân mewn nifer o ieithoedd brodorol ac mae hi'n cynhyrchu fideo cerddoriaeth wedi ei ysbrydoli gan ei gwaith gyda ieithoedd brodorol.

Mae CRhC hefyd wedi cyfrannu at Óro, prosiect y Galway European Capital of Culture, sy'n cael ei arwain gan Ealaín na Gaeltachta, ac yn gydweithrediad rhwng nifer o artistiaid o bob rhan o'r UE sy'n gweithio trwy gyfrwng ieithoedd sy'n cael eu defnyddio'n llai aml (Kizzy Crawford yw'r artist a gafodd ei dewis o Gymru).

Roedd y ddau weithgaredd yma i fod i ddigwydd yn gynnar yn 2020, ond maent wedi eu gohirio am y tro oherwydd argyfwng COVID-19.



*Top:* Lisa Jên (Llun hyrwyddol). Kizzy Crawford (Llun hyrwyddol)

# Dadansoddiad SWOT o'r rhaglen

Nid yw hwn yn asesiad llawn- yn hytrach wele adlewyrchiad o gryfderau a gwendidau'r rhaglen gyda'r bwriad o ddysgu at weithgarwch y dyfodol.

| Cryfderau | Gwendidau |
| --- | --- |
| **Dirprwyaethau i'r Iwerddon**<br><br>- Datblygiad cadarnhaol o ran cysylltiadau gydag Iwerddon a chreu sylfeini ar gyfer cysylltiadau ieithegol a chelfyddydol at y dyfodol.<br><br>**Symposiwm**<br><br>- trafodaethau egnïol a lwyddodd i ddenu cynulleidfaoedd da.<br>- ymgysylltu'r gymuned leol gyda chyngerdd Jeremy Dutcher.<br>- gosod y cyd-destun ar gyfer Cymraeg fel iaith sydd â chyfrifoldeb byd-eang.<br>- datblygu perthynas gyda Uchel Gomisiwn Canada yn Llundain sy'n awyddus i fuddsoddi mewn digwyddiad tebyg yn ystod tymor yr hydref 2020.<br>- datblygu cyswllt gyda chais ar gyfer safle Treftadaeth y byd UNESCO (Llechi) .<br><br>**Dirprwyaeth yr Eisteddfod**<br><br>- Mae'r berthynas gyda Gŵyl St Patrick wedi arwain at ddigwyddiad mewn partneriaeth gyda'r ŵyl yn Wythnos Cymru Dulyn.<br>- Mae sgwrs rhwng Elen ap Robert (Pontio) a Sharon o'Grady wedi arwain at gyfnewidfa rhwng cynllun BLAS Pontio, sy'n ceisio newid agweddau pobl ifanc tuag at yr iaith Gymraeg, a'r O'Donoghue Centre for Drama.<br>- Mae CRHC wedi atgyfnerthu'r berthynas gyda Suns Europe drwy ymrwymo i hyrwyddo eu galwad am gystadleuydd o Gymru yn 2020, ac yn parhau i hwyluso sgyrsiau â phartneriaid posib. | **Mamiaith Llenyddiaeth Cymru**<br><br>- Nid yw cyllido parhaus ar gyfer cynhyrchu a theithio'r sioe farddoniaeth wedi ei sicrhau eto, fodd bynnag mae elfennau eraill o'r gwaith wedi cael eu datblygu ac mae cyfleoedd eraill wedi codi drwy'r buddsoddiad gwreiddiol.<br><br>**Preswylfa Cerddorol Mamiaith**<br><br>- Roedd diffyg capasiti'n golygu bod y cyfnod paratoi ar gyfer y preswylfa'n hynod fyr, a oedd felly'n golygu nad oedd modd i ni gynnwys cerddor First Nations brodorol o Canada, sef y cynllun gwreiddiol.<br>- heb bartner Cymreig arweiniol y tu allan i CRhC, mae yna ddiffyg eglurder ynghylch pwy yn union sydd yn gyfrifol am yrru'r prosiect yn ei blaen yn y dyfodol (ee. i sicrhau cyfleoedd perfformio).<br><br>**Hawliau Cerddoriaeth Frodorol yn WOMEX a digwyddiadau cerddorol eraill**<br><br>- er y bu'r gynhadledd yn ddigwyddiad pwysig, nid yw'r diffyg dealltwriaeth o ieithoedd brodorol y byd, gan gynnwys swyddogaeth y Gymraeg, yn cael ei barchu gan brif ddarparwyr y diwydiant cerddoriaeth Byd.<br><br>**Rhaglen Lawn**<br><br>- roedd diffyg ffocws ystyrlon ar yr elfen ryngwladol yn y digwyddiad Ein Llais yn y Byd. Teimlai mwy fel cynhadledd na gŵyl, ac nid oedd y math hwn o ddigwyddiad yn gweddu at gywaith Mamiaith. |

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| **Mamiaith Llenyddiaeth Cymru**<br><br>- Wedi galluogi datblygu perthnasau clòs gyda chymheiriaid rhyngwladol, Scottish Poetry Library yn benodol.<br>- Wedi chwarae rhan allweddol yn natblygiad Strategaeth Ryngwladol LlC.<br><br>**Cynhadledd Cerddoriaeth Lled Frodorol WOMEX / UNESCO**<br><br>- roedd y Gymraeg yn rhan fawr o'r drafodaeth yn y gynhadledd.<br>- Roedd y drafodaeth ynghylch pa bryd y mae iaith y gorthrymedig yn dod yn iaith i'r gorthrymwr a deuoliaeth y Gymraeg, Gwyddeleg yr Alban a'r Wyddeleg fel ieithoedd trefedigaethwyr ond hefyd fel iaith i'r sawl sydd wedi dioddef trefedigaethu a phwysigrwydd derbyn a bod yn agored am y ddeuoliaeth hon er mwyn meddwl am iawndaliadau yn nhermau masnach deg a rhannu gwybodaeth ynghylch trosglwyddo iaith ar gyfer ieithoedd sydd o dan fygythiad mewn llefydd a oedd yn arfer bod yn Drefedigaethau Prydeinig.<br><br>**Preswylfa Cerddorol Mamiaith**<br><br>- Cafwyd adborth cadarnhaol gan yr holl artistiaid am y cyfle.<br>- Cynhyrchwyd cerddoriaeth o safon uchel.<br>- Cyfle datblygu i Lisa Jên.<br><br>**Rhaglen Lawn**<br><br>- Mae cael Gweinidog penodol ar gyfer y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol yn rhoi hygrededd sylweddol i'r maes gwaith hwn yng Nghymru ac yn Rhyngwladol ac wedi gosod ieithoedd brodorol/lleiafrifol | - oedd elfennau o'r rhaglen nad oedd modd i ni eu cyflwyno, neu y gellid fod wedi eu datblygu ymhellach.<br>- Yn gyntaf, gwelsom ei bod hi'n her i ddatblygu perthynas ystyrlon gyda UNESCO. Fodd bynnag, Rydym yn gobeithio mynd i'r afael â hyn wrth symud ymlaen (gweler cyfleoedd).<br>- O ganlyniad i capasiti, ni ddaeth cyfle i ni ddatblygu prosiect i edrych ar y cymunedau diaspora amlieithog yng Nghymru. Unwaith eto, mae hwn yn rhywbeth yr ydym yn mynd i'r afael ag ef ar hyn o bryd (cyfleoedd) |

| Cryfderau | Gwendidau |
| --- | --- |
| yn fwy cadarn wrth galon blaenoriaethau strategol Cyngor Celfyddydau Cymru.<br>- Bu cynhadledd Ein Llais yn y Byd yn gyflwyniad defnyddiol i'r sector datblygu iaith a chelfyddydau, ond mae angen gwneud llawer mwy o waith os yw hwn yn mynd i ddiwallu disgwyliadau rhyngwladol.<br>- Cyfleoedd cyfnewid rhyngwladol ee Cymru yn Siapan; Iwerddon; BreakOut West yng Nghanada ayyb. | |

| Cyfleoedd | Bygythiadau |
| --- | --- |
| **Symposiwm**<br><br>- Gŵyl Mawr y Rhai Bychain – Gŵyl Gerddoriaeth Frodorol ryngwladol newydd wedi ei gohirio tan hydref 2021 yn Neuadd Ogwen (o ganlyniad i gyfres o ymyrriadau strategol a grant Cyngor Celfyddydau Cymru).<br>- Miwsig – Mae'r brand newydd hwn gan dîm Dydd Miwsig Cymru yn cynnig y brand croesawu perffaith ar gyfer gweithgareddau'r dyfodol.<br>- Caiff ail symposiwm Mamiaith ei gynnal yn rhithiol yn ystod hydref 2020 i gyd-fynd â'r Cyfarfod Rhwydwaith Cerddoriaeth Lled-Frodorol yn WOMEX 20.<br>- Datblygu'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r ymgyrch Llechi ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd.<br>- gweithgareddau BIB UNESCO eraill, fel prosiect 'Mamiaith' Llenyddiaeth Cymru.<br><br>**Mamiaith Llenyddiaeth Cymru**<br><br>- cyfleoedd ar gyfer cydweithio strategol rhyngwladol. | **Brand Cymru Wales**<br><br>- mae'r Gymraeg a'i diwylliant mewn perygl o gael ei chamddefnyddio o dan frand GREAT fel rhan o Strategaeth Pŵer Meddal Llywodraeth y DU. Mae angen sicrhau bod gweithgareddau diwylliannol cyfrwng Cymraeg yn cynyddu o fewn brand Cymru Wales ynghyd â gosod canllawiau llym er mwyn osgoi camddefnydd o'r iaith a'r diwylliant.<br><br>**Mamiaith Llenyddiaeth Cymru**<br><br>- Nid yw'r cyllid sydd ei angen er mwyn parhau â'r prosiect wedi ei sicrhau eto.<br><br>**Dirprwyaeth Rhyngwladol yr Eisteddfod**<br><br>- Bydd yr Eisteddfod / Llangollen / Yr Urdd yn datblygu strategaeth rhyngwaldol ac yn bennaf gyfrifol am groesawu partneriaid rhyngwladol a meithrin perthnasau diwylliannol gyda grwpiau ieithoedd brodorol. |

| Cyfleoedd | Bygythiadau |
|---|---|
| **Eisteddfod**<br><br>- Y potensial i ddatblygu ffocws rhyngwladol neu ddigwyddiad 'ffrinj' i'r Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod yr Urdd ac Eisteddfod Ryngwladol Llangollen lle y gellir platfformio ieithoedd lleiafrifol eraill – ymestyn cyrhaeddiad cynulleidfaoedd yr Eisteddfodau.<br><br>**Preswylfa Cerddorol Mamiaith**<br><br>- Cyfleoedd perfformio ar gyfer y grŵp – Lorient, Celtic Connections, Wythnos Cymru Dulyn<br><br>**Rhaglen Lawn**<br><br>- Nifer uwch o ymgysylltiadau rhyngwladol yng Nghymru. Mae'r cyfle i barhau gyda degawd Ieithoedd Brodorol UNESCO wedi ei gyhoeddi.<br>- Mae swm bychan o gyllid ar ôl gyda hwn, sydd wedi cael ei glustnodi tuag at ddatblygu prosiect yn edrych ar fapio ieithoedd a chymunedau diaspora yng Nghymru.<br>- Mae Blwyddyn Cymru yn Yr Almaen 2021 yn cynnig cyfle i ddatblygu'r berthynas gyda UNESCO (sydd wedi'i leoli yn Yr Almaen).<br>- Mae datblygiad rhwydwaith RESILIART Cymru Wales (menter UNESCO) yng Nghymru yn fodd o gefnogi'r berthynas hon.<br>- Rydym yn gobeithio datblygu rhwydwaith ddiwylliannol a fydd yn eistedd ochr yn ochr â'r NPLD ar gyfer rhanbarthau a chenhedloedd yn Ewrop (ac o bosib y byd). | **Preswylfa Cerddorol Mamiaith**<br><br>- Mae cymhlethdodau ynghylch hawliau cerddorol yn atal rhyddhau'r gerddoriaeth<br>- Mae anhawsterau ymarferol o ran cael y grŵp cyfan at ei gilydd i berfformio yn her<br><br>**Rhaglen Lawn**<br><br>- Mae rhai yn teimlo bod galw'r Gymraeg yn iaith 'frodorol' yn cyfrannu tuag at feddiannu diwylliannol a bod y naratif yn tynnu sylw oddi ar ormes pobloedd brodorol ar draws y byd. Mae eraill yn teimlo ei fod yn gam gwag i wadu natur frodorol y Gymraeg. Mae'r maes hwn yn un sensitif sydd angen cael ei wyntyllu. Mae Black Lives Matter wedi pwysleisio materion dad-drefedigaethu, braint gwyn cymunedau Cymraeg a sut y mae siaradwyr Cymraeg Du ac o Leiafrifoedd Ethnig wedi dioddef hiliaeth.<br>- Sut i rannu'r profiadau a'r sgiliau ynghylch trosglwyddo iaith;<br>- Y potensial ar gyfer capasiti parhaus, a diffyg gweithredu o ganlyniad i flaenoriaethau eraill neu ddiffyg adnoddau.<br>- Brexit a sefyllfa presennol COVID. |

Argymhellion:

1 1) Yn unol a'r dystiolaeth yn yr adroddiad yma ac adroddiadau eraill cyfoes creu **polisi a fframwaith datblygu** iaith a diwylliant iaith i gydfynd gyda ymroddiad Llywodraeth Cymru i ddegawd **UNESCO 2022** a'r **Strategaeth Ryngwladol**.

I gefnogi hyn, awgrymwn ddatblygu **partneriaith** ar draws portfolio'r Celfyddydau, Creadigol a threftadaeth a chreu safle creiddiol i'r iaith Gymraeg i gefnogi amcanion Llywodraeth Cymru.

Mae cyfle i'r sector datblygu'r celfyddydau a'r sector datblygu'r Iaith Gymraeg i weithio mewn partneriaeth mwy ffurfiol fel yr argymhellir yn ymchwil parhaus Elen ap Robert. Mae ymestyn gweithgarwch mewn dull hir-dymor o'r fath yn hanfodol ac yn cyd-fynd â'r agenda Llesiant.

2 Rhoi ffocws gliriach i'r iaith a diwylliant iaith o fewn **7 nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**. Drwy ymrwymiad cadarn i'r Ddeddf Llesiant, bydd y Gwaith yma yn strategol bwysig o fewn a thu allan i Gymru ac yn cwrdd yn uniongyrchol gyda **7 Nod Datlbygu Cynaladwy Y Cenhedloedd Unedig**. Awgrymwn ddau ffocws cysylltiedig yma:

- yn gyntaf cyfrifoldeb diwylliannol rhyngwladol y Gymraeg tuag at ieithoedd diflanedig yn rhyngwladol gan ffocysu ar wledydd sy'n rhan o'r Gymanwlad (e.e. drwy raglenni fel Gemau 'r Gymanwlad, Blwyddyn y DU ac Awstralia; MoU Cymru-Quebec ayyb);

- ac yn ail, cryfhau agweddion tuag at amrywiaeth ieithyddol yng Nghymru a'r byd drwydd ddathlu ieithoedd a diwylliannau eraill sy'n byw yng Nghymru ac ymgysylltu a diwylliant iaith Gymraeg o fewn rhagleni mawr megis "Gwyl Prydain" 2022.

3 Datblygu a chytuno gyda rhan-ddeiliaid cynllun gwaith cymhelliad yr iaith yn rhyngwladol o fewn maes P**wer Cymell, Diplomyddiaeht Cyhoeddus** a **pherthnasedd Ddiwylliannol**. Drwy ffocysu ar bortread o'r iaith a diwylliant iaith o fewn **brand Cymru Wales** yn rhyngwladol, gallai hyn gynnwys gweithgareddau ymarferol gan gynnwys cyfres o becynnau cymorth wedi eu brandio ar gyfer Llysgenhadaethau Prydienig ac asiantaethau perthnasol i hepu rhanu a chyfleu lle y Gymraeg a'i diwylliant o fewn Cymru a'r DU gyfoes.

Gallai datblygu canllawiau o’r fath osgoi camfeddiant o’r iaith Gymraeg gan frandiau megis ymgyrch GREAT.

Gellid hefyd ffocusu ar greu pecynnau cymorth ymarferol yn ymwneud â throsglwyddo a hyrwyddo iaith drwy gyfrwng cerddoriaeth a gweithgaredd diwylliannol, a lle iaith mewn celf a iechyd. Gellid eu rhannu ar blatfformau digidol a chyda rhwydweithiau trosglwyddo iaith, celf a iechyd a cherddoriaeth yn rhyngwladol.

# Atodiad 1

### Adroddiad Y Wasg a Chyfryngau Cymdeithasol

Mae cynnwys yr adroddiad hwn yn cwmpasu'r holl weithgarwch sy'n perthyn i'r defnydd o gyllid sy'n dod o dan y rhaglen waith Blwyddyn Ryngwladol Ieithoedd Brodorol UNESCO. Mae yna nifer o brosiectau a digwyddiadau yn gynwysiedig yn y rhaglen waith hon, ynghyd â digwyddiadau wedi'u cyd-gyflwyno gyda phartneriaid allweddol. Mae gwaith cynllunio ar y gweill ar gyfer elfen etifeddiaeth y rhaglen, ond nid yw'n gynwysiedig yn y trosolwg hwn o'r sylw fu yn y wasg ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

| Cynnwys allweddol o lefydd gwahanol ar wefan celfyddydau rhyngwladol cymru | |
|---|---|
| Ebrill 2019 | **Cyngerdd a gweithdy Jeremy Dutcher yn Neuadd Ogwen, Bethesda**<br>https://wai.org.uk/cy/node/493 |
| Hydref 2019 | **Worldcub yn ymweld â Chanolfan Addysg First Nations yn Yukon, Canada**<br>https://wai.org.uk/cy/newyddion-swyddi-chyfleoedd/worldcub-yn-ymweld-cherddorion-yukon-first-nation |
| Hydref 2019 | **WOMEX19**<br>https://wai.org.uk/cy/newyddion-swyddi-chyfleoedd/womex19 |
| Tachwedd 2019 | **Mamiaith a digwyddiad Ein Llais yn y byd / Our Voice in the World**<br><br>Eluned Hâf a Rhodri Llwyd Morgan Prifysgol Aberystwyth ar BBC Radio Cymru Dros Ginio<br><br>**Mamiaith – Galwad am gerddorion**<br>https://wai.org.uk/cy/newyddion-swyddi-chyfleoedd/mamiaith-galwad-am-gerddorion-yng-nghymru-i-gyfrannu-gydweithrediad<br><br>**Mamiaith  - Datganiad i'r Wasg**<br>https://wai.org.uk/cy/newyddion-swyddi-chyfleoedd/mamiaith<br><br>**Llais i'r Gymraeg drwy gerddoriaeth byd – Eluned Hâf, Golygyddol**<br>https://wai.org.uk/cy/newyddion-swyddi-chyfleoedd/llais-ir-gymraeg-drwy-gerddoriaeth-byd |

| Trosolwg y wasg | |
|---|---|
| Ebrill 2019 | **Jeremy Dutcher a 9Bach:**<br><br>**Blog Nigel Stone (Adolygiad)**<br>https://nigelstoneblog.wordpress.com/category/art/<br>**Cyhoeddusrwydd i'r Digwyddiad – World Eventz**<br>https://www.worldeventz.com/events/eb/Mamiaith/en/events/eb/Mamiaith/58857914607 |
| Tachwedd 2019 | **Mamiaith . Ein Llais yn y Byd**<br><br>**Tudalen y digwyddiad gyda gwybodaeth lawn, Prifysgol Aberystwyth (12 Tachwedd 2019):**<br>https://www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2019/11/title-227015-cy.html<br>**Tudalen y Prosiect a Gwybodaeth, Croeso Cymru (Mai 2020):**<br>https://www.wales.com/cy/gwreiddiau-blodau-cerddoriaeth-werin-cymru |

| Trosolwg cyfryngau cymdeithasol – negeseuon mwyaf poblogaidd | |
|---|---|
| TWITTER | - Perfformiad Gruff Rhys o PANG! yn Nhokyo, 6, 431 o argraffiadau (3 Hydref).<br>- Diwrnod Cerddoriaeth yn y Dôm (27 Medi), 5,887 o argraffiadau.<br>- Trydariad Siapaneaidd am Gruff Rhys, 4,709 o argraffiadau a 186 o ymgysylltiadau (3 Hydref).<br>- Y trydariad Saesneg gyda'r ymgysylltiad mwyaf oedd perfformiad gwaith ar y gweill gan gerddorion Mamiaith ar ddechrau gŵyl Ein Llais yn y Byd, 157 o ymgysylltiadau, 6,257 o argraffiadau (28 Tachwedd). |
| FACEBOOK | - Cyngerdd Jeremy Dutcher a 9Bach ym Methesda a fideo am Neuadd Ogwen a'r gwaith maen nhw'n ei wneud – y ddau neges gyda'i gilydd yn cyrraedd 4.7k o bobl, gyda 229 o ymgysylltiadau.<br>- Cynhadledd Ieithoedd Brodorol cyntaf WOMEX19. Roedd neges benodol yn Gymraeg yn arbennig o lwyddiannus, gan gyrraedd 1.8k, gyda'r neges yn cael ei bwyso 36 o weithiau. Roedd y neges hon yn rhannu dolen i fideo a gyflwynwyd gan Cymraeg ar twitter o Jeremy Dutcher a'r gweithdy prynhawn yn Neuadd Ogwen. |
| INSTAGRAM | - Sefydlwyd cyfrif Instagram CRhC ar 26 Medi 2019.<br>- Y neges mwyaf poblogaidd ar instagram yn ystod y cyfnod hwn oedd grwp cerddorion Mamiaith yn cerdded yn y wlad ar ddiwrnod cyntaf eu hymarferion. Llwyddodd negeseuon am y prosiect hwn i gael 92 o likes. (25 Tachwedd). |

| Digwyddiadau | |
|---|---|
| Ebrill 2019 | **Cyngerdd Jeremy Dutcher a 9Bach gyda gweithdy yn y prynhawn yn Neuadd Ogwen** |
| Twitter | Trydariad yn Gymraeg (4 Ebrill) yn hysbysebu'r gyngerdd oedd yr un mwyaf poblogaidd yn ystod cyfnod y Gwanwyn hwn, gan lwyddo i dderbyn 5,012 o argraffiadau gan arwain at 85 o ymgysylltiadau. Roedd y neges gyfatebol yn Saesneg hefyd yn llwyddiant, gyda 3,205 o argraffiadau, a 52 o ymgysylltiadau.<br><br>Cafodd nifer o drydariadau eu rhannu yn y cyfnod hwn naill ai i hyrwyddo'r digwyddiad, er mwyn rhannu'r cynnwys yn fyw, neu wrth edrych yn ôl ar y digwyddiad gydag ambell ddelwedd neu fideo. Gwnaeth y negeseuon a berfformiodd orau 17,239 o argraffiadau oll ynghyd. |
| Facebook | Cyrhaeddodd negeseuon yn Gymraeg a Saesneg am y digwyddiad hwn gyfanswm o 2.6k o bobl, a cliciwyd ar y neges 75 o weithiau. |
| Ebrill – Medi 2019 | **Prosiect Mamiaith gan Llenyddiaeth Cymru gyda Ifor ap Glyn a Ian Rowlands** |
| Twitter | Comisiynodd Llenyddiaeth Cymru Ifor ap Glyn i ysgrifennu cerdd i nodi lansiad Blwyddyn Ryngwladol Ieithoedd Brodorol UNESCO (1 Chwefror). Gwnaeth y negeseuon yn Gymraeg a Saesneg 863 o argraffiadau gan gyrraedd nifer yn rhagor drwy gyfrwng trydariad Llenyddiaeth Cymru. |
| Facebook | Cafodd 2 neges ar Facebook oedd yn lansio'r gerdd eu rhannu ar gyfradd arbennig o uchel, Saesneg (22 yn hoffi, 37 yn rhannu) a Chymraeg (4 yn hoffi, 6 yn rhannu). |
| Awst 2019 | **Cyd-gynhyrchiad Rhyngwladol (Cymru / Iwerddon - Tylwyth) a Dirprwyaeth Ryngwladol yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Llanrwst** |
| Twitter | Roedd y cyhoeddiad ynghylch y cyd-gynhyrchiad rhwng Fidget Feet a Pontio ar gyfer cyngerdd Agoriadol yr Eisteddfod yn boblogaidd, gydag argraffiadau'n cyrraedd 4,856 dros gyhoeddiadau Saesneg a Chymraeg, a 145 o ymgysylltiadau (22 Tachwedd). Cafodd neges o'r perfformiad ei hun 1, 159 o argraffiadau. Mae'r ffigurau hyn ar gyfer negeseuon CRhC yn unig. |

| Digwyddiadau | |
|---|---|
| Facebook | Roedd trydariad gan y Gonsyliaeth Wyddelig yng Nghymru yn diolch i CRhC am ymweliad y ddirprwyaeth ryngwladol â'r Eisteddfod hefyd yn boblogaidd, gyda 80 o 'likes' a 428 o ymgysylltiadau.<br><br>Roedd y cyrhaeddiad ar facebook ar gyfer y cyd-gynhyrchiad yn cwmpasu tri prif bartner sydd â chyfanswm o 32k o 'likes' ar draws eu tudalennau. Fe wnaeth pob un rannu sawl neges ar eu llinellau amser, o'r cyhoeddiad ym mis Tachwedd hyd at y perfformiad ei hun ym mis Awst 2019, gan drafod pwyntiau allweddol megis gweithdai datblygu, ymarferion ayyb. |
| Medi 2019<br><br>Facebook | **Arddangosfa Gran Salón México yn Neuadd Ogwen**<br><br>Postiodd Neuadd Ogwen (18 Hydref) a Gran Salón México (5 Rhagfyr) am yr arddangosfa hon. |
| Medi 2019<br><br>Twitter | **PANG! gan Gruff Rhys yn Nhokyo, Siapan**<br><br>Derbyniodd drydariad yn sôn am berfformiad Gruff Rhys o Pang! yn Nhokyo y nifer uchaf o argraffiadau; 6, 431 (3 Hydref)<br>Yn agos at y trydariad hwn o ran poblogrwydd oedd neges yn cynnwys delweddau o'r sylw ar gerddoriaeth yn y dôm (27 Medi), gan lwyddo i dderbyn 5,887 o argraffiadau.<br>Llwyddodd trydariad Siapaneaidd am y gig i wneud yn dda hefyd gyda 4,709 o argraffiadau a 186 o ymgysylltiadau (3 Hydref). |
| Facebook | Llwyddodd neges oedd yn edrych yn ôl ar y deunydd cerddorol Cymraeg ei iaith yn Nhokyo i gyrraedd 141 o bobl gyda montage byr o ddigwyddiadau'r diwrnod (27 Medi) |
| Instagram | Delweddau o'r perfformiad oedd ein neges gyntaf ar ein tudalen Instagram, gan lwyddo i ddenu 13 o likes (27 Medi) |
| Hydref 2019<br><br>Twitter a Facebook | **World Cub yn y Ganolfan First Nations yn Yukon, Canada gyda FOCUS Wales**<br><br>Paratowyd fideo gan FOCUS Wales am eu hamser yn Breakout West, a oedd yn arddangos peth cynnwys yn ymwneud â digwyddiad arbennig World Cub yn y Ganolfan First Nations. Rhannodd y grŵp y fideo ar draws proffiliau eu cyfryngau cymdeithasol:<br><br>https://twitter.com/FocusWales/status/1194284258162094080?s=20<br>https://www.facebook.com/focuswales/videos/413208506296571/ |

| Digwyddiadau | |
|---|---|
| Hydref 2019 | **Mamiaith a chyfranogi yng Nghynhadledd Ieithoedd Brodorol WOMEX yn Y Ffindir** |
| Twitter | Cyrhaeddwyd cynulleidfa cyfansymiol o 3.6k wrth rannu trydariad yn hyrwyddo cyfranogiad Eluned Hâf mewn trafodaeth banel yn y Gynhadledd Ieithoedd Brodorol, yn ogystal â thrwy rannu fideo o'r digwyddiad yn Neuadd Ogwen. |
| Facebook | Llwyddodd neges ynglyn â dirprwyaeth Cymru yn Womex gyrraedd 205 o bobl, gyda 13 yn pwyso'r ddolen i fynd at yr erthygl lawn ar y wefan. Llwyddodd negeseuon penodol yn Gymraeg a Saesneg ar 25 Hydref am gyfranogiad CRhC mewn sesiwn banel o dan y teitl "Sut mae cerddoriaeth yn gallu diogelu ieithoedd brodorol prin rhag diflannu a chefnogi eraill i werthfawrogi eu cyfraniad at amrywiaeth ddiwylliannol?" gyrraedd 1, 951 o bobl ac fe'u rhannwyd 5 gwaith. |
| Tachwedd 2019 | **Cerddorion prosiect Mamiaith yn ymgymryd â'u preswylfa cyd-weithredol yn Llanidloes a pherfformiad yng Ngŵyl Ein Llais yn y Byd yn Aberystwyth** |
| Twitter | Roedd llawer o weithgarwch ar twitter yn ymwneud â'r digwyddiad a'r cyd-weithrediad hwn, gyda'r gweithgarwch yn cyrraedd 45k o bobl ac yn llwyddo i ddenu 889 o ymgysylltiadau (Tachwedd 2019), cyfradd uwch na'r arfer ar gyfer negeseuon. |
| Facebook | Cyrhaeddwyd 131 o bobl drwy gyfrwng yr alwad ar gyfer cerddorion o Gymru i fod yn rhan o'r prosiect (6 Medi). Llwyddodd y neges a oedd yn cyhoeddi'r artistiaid a fyddai'n cymryd rhan (12 Tachwedd) i gyrraedd 756 o bobl, gyda 37 o 'likes', 11 sylw a 4 rhaniad.<br>Cyrhaeddodd neges am y gig yn y nos a drefnwyd gan Y Selar 285 o bobl (24 Tachwedd).<br>Cyrhaeddwyd 198 o bobl drwy gyfrwng fideo o'r perfformiad o'r digwyddiad (28 Tachwedd)<br>Yn ogystal, aethom ati i ffilmio a rhannu cynnwys ychwanegol o'r diwrnod (4 Rhagfyr ), gan gynnwys sgwrs fer gyda Georgia Ruth (wedi ei wylio 236 o weithiau) a Jordan Williams (wedi ei wylio 155 o weithiau). |
| Instagram | Rhannwyd delwedd o'r perfformiad hwn ynghyd â fideo 'instagram story' byr ar fore'r digwyddiad hwn, gan lwyddo i ddenu 41 o ymgysylltiadau.Y neges mwyaf poblogaidd ar instagram oedd delwedd o'r grŵp yn cerdded yn y wlad ar ddiwrnod cyntaf eu hymarferion. Llwyddodd negeseuon am y prosiect hwn i dderbyn 92 o 'likes'. |

wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru

www.wai.org.uk

Cymru
Wales

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**